

BARDDAS – Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YSGRIFENNYDD AR RAN Y PWYLLGOR GWAITH am y flwyddyn Ebrill 2023 – Mawrth 2024

Pwyllgor Gwaith Barddas:

Swyddogion y Pwyllgor Gwaith:

Cadeirydd:	Aneirin Karadog	2017 – Medi 2023 *
	Gwenallt Llwyd Ifan	Medi 2023 – **
Is Gadeirydd:	Llion Elis Jones	2017 – 2023
Trysorydd:	Carwyn Llŷr James	2021 – 2023 *
	Dafydd Meirion Jones	2023 – **
Ysgrifennydd:	Rhys Dafis	2017 – 2024
	Aled Evans	2024 – **

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith

Dafydd John Pritchard	2020
Tudur Dylan Jones	2020
Gruffudd Antur Edwards	2021
Nerys Mari George	2020
Mererid Hopwood	2020
Osian Rhys Jones	2020
Joanne Debrah Heyde	2022
Elinor Wyn Reynolds	2022
Aneirin Karadog	2023 *

* Ymddiswyddo fel Swyddogion yn y Cyfarfod Blynyddol 06/09/2023. Aneirin Karadog a Llion Elis Jones yn parhau yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

** Cyfethol yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac yn Swyddogion yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar 06/09/2023.

Swyddogion Cyflogedig Barddas:

Golygydd cylchgrawn Barddas:	Twm Morys	2011 –
Golygydd cyfrolau Barddas:	Bethany Celyn Jukes-Hughes	2023 –
Cydlynnydd:	Heledd Melangell Williams	2023

Cyfranwyr eraill at waith Barddas:

Cynrychiolydd y Cyngor Llyfrau:	Arwel Jones.
Cyfrifydd:	Cwmni Hill a Roberts, Rhuthun
Bancwyr:	Banc Barclays, Cangen Porthmadog Banc Y NatWest
Dylunwyr ac Argraffwyr:	Elgan Griffiths (GraffEG), Tanwen Haf, Olwen Fowler, Sion Ilar, Y Lolfa, Gwasg Gomer. Rebecca Ingleby Davies, Serol Print

Ar Banel Llên Canolog yr Eisteddfod Genedlaethol: Yr Ysgrifennydd.
Ar Banel Dewis Bardd Plant Cenedlaethol Cymru: Y Cadeirydd.

Cyfarfodydd Pwyllgorau Barddas yn y cyfnod dan sylw

Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith Barddas:

01 Gorffennaf, 2023 07 Hydref, 2023 03 Chwefror, 2024

[Mae'r Cyfansoddiad yn galw ar y Pwyllgor Gwaith i gyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.]

Cyfarfodydd Is-Bwyllgor Cyhoeddiadau Barddas:

1af o Orffennaf, 2023 – Aberystwyth

7fed o Hydref, 2023 – Aberystwyth

12fed o Fawrth, 2024 – Cyfarfod rhithiol

Aelodaeth Barddas

	31/03/23	31/03/24
Nifer yr aelodau:	531	538
Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn		17
Colli aelod drwy farwolaeth (i ni wybod) yn ystod y flwyddyn:	23	2
Dad-ymaelodi / dileu oherwydd dim ateb:	83	8
Aelodau'n talu drwy archeb banc:	398	446
Dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn:	22	16

Cyhoeddiadau gan Barddas Ebrill 2023 – Mawrth 2024

Y Cylchgrawn 'Barddas' (yng ngofal Golygyddol y Prifardd Twm Morys)

Rhifyn 357 (Gwanwyn)	Ebrill 2023
Rhifyn 358 (Haf)	Gorffennaf 2023
Rhifyn 359 (Hydref)	Hydref 2023
Barddas Bach y Dolig	Rhifyn electronig
Rhifyn 360 (Gaeaf)	Chwefror 2024

Cyfrolau gwasg 'Cyhoeddiadau Barddas' (yng ngofal Bethany Celyn Jukes-Hughes)

Y Gragen, Casia William, Mai 2023 (*Beirdd Bach*)

Oriel y Bardd, gol. D. Geraint Lewis, Mai 2023 (*Rhaglen 22-23*)

Tonfedd Heddiw: Gwawrio, Tegwen Bruce-Deans, Mehefin 2023 (Rhaglen 23-24)

Mymryn Rhyddid, Gruffudd Owen, Gorffennaf 2023 (Rhaglen 23-24)

Curiadau: Blodeugerdd LHDTC+, gol. Gareth Evans-Jones, Awst 2023 (Rhaglen 23-24)

Pamffled Prifeirdd Cymru, Twm Morys & Emyr Young, Awst 2023 (tu allan i'r rhaglen)

Gweld Llun o Glywed Llinell, Rhys Dafis, Hydref 2023 (Rhaglen 23-24)

Pigion y Talwrn 14, gol. Ceri Wyn Jones, Tachwedd 2023 (Rhaglen 23-24)

Tymor Da, Robat Powell, Mawrth 2023

Mae Gêm yn Fwy na Gêm: Blodeugerdd Chwaraeon, gol. Sioned Dafydd, Mawrth 2024 (Rhaglen 23-24)

Cerddi'r Arfordir (Blodeugerdd), gol. Mari George, Mawrth 2024

Hoffem ddiolch yn fawr i'r Cyngor Llyfrau am barhad eu cefnogaeth i'n gweithgaredd cyhoeddi, ac am y cydweithio hwylus bob amser, a'r parodrwydd i ystyried ac ysgogi syniadau newydd.

Gweithgareddau hyrwyddol Barddas 2023/20234

Barddas oedd yn gyfrifol fel arfer am drefnu a chynnal ymryson y beirdd (**Ymryson Barddas**) yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, Pen Llŷn.

Cafwyd 4 ymryson hwyliog, gyda Twm Morys yn Feurnyn am y tro cyntaf, a hynny'n ddeheuig fel arfer. Wrth ei ochr roedd Meurnyn cynorthwyol, a feddyddiwyd â'r enw anrhydeddus, "Yr Islwyn", sef Gruffudd Antur. Diolchwn i swyddogion yr Eisteddfod am hwyluso'r digwyddiad. Dyma'r buddugwyr:

Tlws Rolant o Fôn (Tîm buddugol yr Ymryson)	Deheubarth
Tlws T Arfon Williams (englyn gorau'r Ymrysona)	Tîm Llŷn ac Eifionydd
Tlws John Glyn Jones ('englyn y dydd' gorau)	Huw Meirion Edwards
Tlws Edgar Parry Williams	Arwel 'Pod' Roberts

Buddugwyr Englyn y Dydd:

Mawrth	Huw Meirion Edwards
Mercher	Huw Meirion Edwards
Iau	Huw Meirion Edwards
Gwener	Gruffudd Antur

Buddugwyr Limrig y Dydd:

Mawrth	Carys Parry
Mercher	Siân Northey
Iau	J. Arwel Jones
Gwener	Arwel 'Pod' Roberts

Cynhaliwyd cystadlaethau **Tlwsau Barddas** hefyd a'r enillwyr oedd:

Tlws Pat Neill – ysgolion cynradd	Emily Smith Jones (Ysgol Ponrhydfendigaid)
Tlws Ysgolion Uwchradd	Cadi Prys Dafydd (Ysgol Gyfun Glan Taf)
Tlws D Gwyn Evans – oedran 16 – 25	Lois Medi William, (Caernarfon)
Tlws y Gerdd Rydd – cerdd rydd orau Barddas:	Guto Dafydd ((Pwllheli)
Tlws W D Williams – englyn unigol gorau Barddas:	Huw Meirion Edwards (Llandre)
Tlws Roy Stephens – cerdd gaeth orau Barddas:	Emyr Lewis (Craig Cefn Parc)

Ar benwythnos 24 – 26 Tachwedd, 2023 cynhaliwyd **Gŵyl Gerallt** yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gyda'i brif sylw ar Caerwys a'r cyffiniau. Roedd yr Ŵyl yn achlysur i ddathlu 500 mlynedd ers Eisteddod Caerwys 2023, pryd y daeth penceirddiaid y genedl at ei gilydd i grynhoi a rhoi trefn ar reolau 'Cerdd Dafod'. Roedd yn fraint i'r Gymdeithas fod yng ngofal y dathliad, a chafwyd cefnogaeth frwdfrydig gan gyfeillion i'r traddodiad yn y rhan hanesyddol hon o Gymru. Dyma grynodeb o'r rhaglen:

Nos Wener:

Yn Theatr Elwy, Ysgol Glan Clwyd: Noson yng nghwmni Siân James, Gwyneth Glyn a Twm Morys:

Dydd Sadwrn:

Bore Sadwrn: Yn neuadd hanesyddol Plas Mostyn:

Darlith Gerallt 2023: 'Eisteddfod Caerwys a'r traddodiad cerdd dafod' – Dr Peredur Lynch a Dr. Gruffudd Antur.

'Awenau gwerin Tegeingl' – cyflwyniadau gan Dr. Goronwy Wynne ac Ieuan ap Siôn.

'Ceinciau'r oesoedd' – datganiadau ar y delyn gan Sioned Williams, Telynores Garmon.

Pnawn Sadwrn: Yn Neuadd y Dref, Caerwys:

'Lleisiau yfory' – Nia Morais, Bardd Plant Cymru yn rhannu cynnyrch gweithdai barddoni yn ysgolion cynradd Cymraeg y Gwenffrwd, Mornant a Thremeirchion.

'Talwrn yr Ysgolion Uwchradd' – Maes Garmon v Glan Clwyd, dan ofal y meuryn Ceri Wyn Jones (ar gyfer Radio Cymru).

'Cerdd gaeth fwyaf yr iaith' – cynnadi panel o feirdd, gyda'r Prifardd Emyr Lewis yn cadw trefn ar ddadleuon y Prifardd Dafydd John Pritchard, Nia Powell, a'r Dr. Peredur Lynch.

Seremoni wobrwyo 'Pencerdd Powys 2023' am awdl 'Etifeddiaeth', a enillwyd gan y Prifardd Alan Llwyd. Y gadair arian hardd yn rhodd gan gyfeillion o'r ardal.

Nos Sadwrn: yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy:

Trafod awdl Pencerdd Caerwys 2023 yng ngofal y Prifeirdd Mererid Hopwood a Myrddin ap Dafydd.

Ymryson 500 mlynedd' – gyda'r Meuryn Twm Morys a'r Islwyn Gruffudd Antur yn graddio beirdd timoedd Y Berffro, Mathrafal a Dinefwr.

Bore Sul: yn ardal Treffynnon: 'Pererindod Tegeingl' i Ffynnon Gwenfrewi ac Abaty Dinas Basing yng nghwmni'r cywyddwyr.

Mae Barddas yn ddiolchgar i *Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru*, am gefnogi'r Wyl – a hefyd i drigolion diwylliedig yr ardal am cefnogaeth a'u croeso cynnes.

Cynhaliwyd nifer o **lansiadau cyfrolau newydd** pan fu awduron yn cael eu holi ac yn trafod a chyflwyno eu gwaith. Roedd y digwyddiadau yn gartrefol broffesiynol, gyda chynulleidfa dda ymhob un. Llwyddwyd i gael sylw i amryw o'n cyfrolau newydd ar raglenni teledu megis Heno, ar y radio ac mewn cylchgronau. Roedd y cyhoeddusrwydd cenedlaethol i'r lansiadau yn gyfrwng buddiol i hyrwyddo gwerthiant.

Bu nifer o aelodau'r Gymdeithas yn weithgar yn **hyrwyddo Cerdd Dafod yn lleol** yn ystod y flwyddyn, drwy gynnal dosbarthiadau cynganeddu mewn canolfannau ac yn rhithiol, a chefnogi beirdd unigol sy'n dysgu'r grefft. Bu eraill yn sgwrsio neu ddarlithio am farddoniaeth, a llunio englynion a cherddi ar gyfer achlysuron penodol.

Partneriaeth rhwng y BBC a Barddas sy'n gyfrifol am ddewis '**Bardd y Mis**' i lunio cerddi cyfoes i'w darlledu ar Radio Cymru. Jo Heyde a fu'n gyfrifol am gydlyn cyfraniadau'r beirdd gyda Radio Cymru, a chyfrannodd sawl un o'n haelodau at y raglenni Radio o fis i fis.

Yn ogystal â'n gwefan, defnyddiwyd cyfryngau Trydar a Gweplyfr a thebyg yn helaeth iawn hefyd i hyrwyddo'n digwyddiadau a'n lansiadau. Yn sicr, bu hyn yn allweddol i gynnal proffil ein gwaith. Gyda mwy o bobl yn siopa 'ar lein', mae'n gyfrwng pwysig i'r dyfodol, yn enwedig ymhlith y to iau.

Rhys Dafis
Ysgrifennydd
Rhagfyr 2024

Rhif yr elusen: 511899

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD
BARDDAS
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN
YN Y DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

CYNNWYS

Disgrifiad	Tudalen
Manylion yr ymddiriedolwyr a'r pwyllgor gwaith	2
Adroddiad yr ymddiriedolwyr	3
Adroddiad yr archwiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgaredd ariannol	8
Mantolen	9
Nodiadau	10

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ynghyd â datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024.

Gwybodaeth gyffredinol a manylion gweinyddiaeth yr elusen, yr Ymddiriedolwyr oedd yn gweithredu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 a'i ymgynghorwyr: -

Enw Cofrestredig yr Elusen	Y Gymdeithas Gerdd Dafod
Rhif Cofrestru'r Elusen	511899
Cyfeiriad Cofrestredig	Cilgwyn, Llansannan, Dinbych, LL16 5HL

Llywydd Anrhydeddus	Dafydd Islwyn
---------------------	---------------

Ymddiriedolwyr (Y Pwyllgor Gwaith)

Cadeirydd	Y Prifardd Aneirin Karadog (ymddeolodd 6 Medi 2023) Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan (cyfetholwyd 6 Medi 2023)
Is-gadeirydd	Y Prifardd Llion Elis Jones (ymddeolodd 6 Medi 2023) Y Prifardd Aneirin Karadog (penodwyd 6 Medi 2023)
Trysorydd	Llŷr James (ymddeolodd 6 Medi 2023) Dafydd Meirion Jones (cyfetholwyd 6 Medi 2023)
Ysgrifennydd	Rhys Dafis (ymddeolodd 31 Mawrth 2024)
Darpar ysgrifennydd	Aled Maredudd Evans (cyfetholwyd 06 Medi 2023)

Y Prifardd Llion Elis Jones
Gruffudd Antur Edwards
Nerys Mari George
Y Prifardd Mererid Hopwood
Y Prifardd Tudur Dylan Jones
Y Prifardd Osian Rhys Jones
Y Prifardd Dafydd John Pritchard
Joanne Debra Heyde
Elinor Wyn Reyonlds

Golygydd Llawrydd

Y Prifardd Twm Morys

Staff

Alaw Griffiths (gadael Mehefin 2023)
Bethany Celyn Jukes-Hughes
Heledd Williams (ymuno Medi 2023)

Archwiliwr Annibynnol

R A Roberts BSc, FCA
Hill & Roberts
Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Strwythur a rheolaeth y cronfeydd elusennol

Mae Y Gymdeithas Gerdd Dafod (y “Gymdeithas”) yn fenter wedi ei sefydlu o dan gyfansoddiad ysgrifenedig ac yn cael ei gweinyddu gan Bwyllgor Gwaith. Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn Ymddiriedolwr/wraig yn yr elusen. Mae'r Gymdeithas elusennol wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 511899).

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ei ethol o blith aelodau'r Gymdeithas. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am reoli gwaith y Gymdeithas ar ran yr aelodau. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ethol swyddogion o'u plith.

Nodau ac amcanion

Nod y Gymdeithas yw addysgu'r cyhoedd i werthfawrogi a deall barddoniaeth Gymraeg, yn enwedig y gelf o gynganeddu a hybu'r rhai sydd am farddoni.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Mae'r Gymdeithas yn gweithio i gyflawni ei hamcanion drwy gyhoeddi o leiaf pedwar rhifyn o'r cylchgrawn *Barddas* yn flynyddol, cyhoeddi llyfrau, a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau hyrwyddol amrywiol ledled Cymru ac ar y cyfryngau.

Trefniant a Gweithgareddau

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd y llyfrau canlynol gyda chymorth y Cyngor Llyfrau: -

Y Gragen; Oriel y Bardd; Gwawrio; Mymryn Rhyddid; Curiadau: Bloeugerdd LHDTC+; Dau Lais: Detholiad o Waith Gwilym Ceri Jones; Prifeirdd Cymru - Llŷn ac Eifionydd; Gweld Llun o Glywed Llinell; Pigion y Talwrn 14; Mae Gêm yn Fwy Na Gêm: Blodeugerdd Chwaraeon; Tymor Da; Cerddi'r Arfordir.

Cyhoeddwyd 5 rhifyn o *Barddas* a chynhaliwyd cystadlaethau Tlysau *Barddas* yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd a Gwyl Gerallt yng Nghaerwys a'r cyffiniau, yn ogystal a nifer o lansiadau Creola newydd. Mewn partneriaeth â'r BBC, trefnwyd “Bardd y Mis” ar gyfer darllediadau Radio Cymru a chyromyd yn gyson at raglenni'n trafod barddoniaeth.

Adolygiad ariannol

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i dderbyn grantiau oddi wrth Cyngor Llyfrau Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o £75,689 (2022-23: £83,040). Mae canlyniadau'r elusen i'w gweld yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cyfanswm incwm oedd £116,886 (2023 - £127,727) a chyfanswm gwariant oedd £172,691 (2023 - £130,778). Mae hyn yn gadael gwariant net o £55,805 wedi tynnu o gronfeydd yr elusen am y flwyddyn (2023 – gwariant net £3,051).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Polisi cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhydd, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr elusen.

Mae'r gronfa anghyfyngedig wedi disgyn i lefel sy'n is na sy'n ddelfrydol ar 31 Mawrth 2024. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cydnabod hyn ac wedi rhoi cynllun mewn lle i godi'r gronfa yn ôl i'r lefel sy'n cyfateb a'r polisi. Gweler sylwadau ar dudalen 9 "Busnes hyfyw".

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae'r Elusen yn defnyddio cyfrifon cadw yn y banc, er mwyn ennill ychydig log a chadw arian yr Elusen yn ddiogel.

Rheolaeth Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gwneud arolwg risg ym meysydd strategaeth, busnes a gweithredol yr Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg ragweladwy.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Gymdeithas yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Llyfrau Cymru a bwriada'r elusen barhau i gyhoeddi llyfrau, cyhoeddi'r cylchgrawn, cynnal digwyddiadau hyrwyddol amrywiol (megis lansiadau, ymrysonau, cystadleuthau barddoniaeth a Gŵyl flynyddol).

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr fel Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (parhad)

Mae cyfraith sy'n berthnasol i elusennau yn gofyn bod yr Ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion yr elusen fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol yr elusen ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a chyfansoddiad yr elusen. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Datganiad

Mae adroddiad yr Ymddiriedolwyr wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr.

Arwyddwyd *A M Evans*

Aled Maredudd Evans – Ysgrifennydd

Dyddiad 22 Ionawr 2025

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

Adroddaf i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Y Gymdeithas Gerdd Dafod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024 fel ag y gwelir ar dudalennau 8 hyd 19.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel Ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

- cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yngylch ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Mae dau fater wedi dod i'm sylw yn ystod fy archwiliad o gofnodion cyfrifyddu'r elusen y tynnaf sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu amodau'r gymynrodd a dderbyniwyd o dan ewyllys Pat Neill. Mae'r ymddiriedolwyr bellach yn credu bod y gronfa gyfyngedig hon hefyd yn gronfa waddol ac felly maent wedi trosglwyddo digon o arian cyffredinol i adfer y gronfa i gydymffurfio â'r amodau hynny ac wedi cynrychioli'r gronfa o fewn y datganiadau ariannol ar dudalennau 8, 9, 11 ac yn fwy arbennig yn nodyn 20 ar dudalen 17.

Y gwariant net ar gyfer y flwyddyn cyn trosglwyddo arian oedd £55,805 o'i gymharu â £3,051 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu'r rhesymau dros y lefel uchel hon o wariant net ac wedi nodi eu hesboniadau ar dudalen 10 o dan y polisi Cyfrifo 'Busnes Gweithredol'. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i leihau costau a gwella adnoddau ariannol yr elusen o fewn y cyfnod ariannol canlynol a sicrhau parhad yr elusen a chyflawni amcanion yr elusen.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Llofnodwyd ***R A Roberts***

Richard Andrew Roberts BSc FCA

Hill & Roberts, Cyfrifwyr Siartredig, 1 Tan y Castell Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1DQ

Dyddiad 23 Ionawr 2025

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024 Cronfa heb gyfyngiad £	2024 Cronfa wedi ei gyfyngu £	2024 Cronfa gwaddol £	2024 Cyfanswm cronfeydd £	2023 Cyfanswm cronfeydd £
Adnoddau a dderbyniwyd						
Rhoddion a chymynroddion	3	91,432	-	-	91,432	97,784
Gweithgareddau elusennol	4	25,041	-	-	25,041	29,819
Buddsoddiadau	5	228	-	185	413	124
		116,701	-	185	116,886	127,727
Adnoddau a dreuliwyd						
Gweithgareddau elusennol	6	172,506	-	185	172,691	130,778
Cyfanswm gwariant		172,506	-	185	172,691	130,778
Incwm/ (Gwariant) Net		(55,805)	-	-	(55,805)	(3,051)
Symudiadau net rhwng cronfeydd		(1,152)	(13,848)	15,000	-	-
Adnoddau a dderbyniwyd net		(56,957)	-	15,000	(55,805)	(3,051)
Cyfanswm cronfeydd 1 Ebrill 2023		64,697	13,848	-	78,545	81,596
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2024		7,740	-	15,000	22,740	78,545

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024		2023	
		£	£	£	£
ASEDAU PARHAOL					
Asedau cyffyrddadwy	16		637		-
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	17	12,964		26,804	
Dyledwyr a Rhagdaliadau	18	7,660		3,803	
Arian yn y banc		16,205		65,791	
		<u>36,829</u>		<u>96,398</u>	
CREDYDWYR					
Yn daladwy o fewn y flwyddyn	19	14,726		17,853	
			<u>22,103</u>		78,545
			<u>22,740</u>		<u>78,545</u>
CRONFEYDD					
Gwaddol	20	15,000			-
Wedi eu cyfyngu gwaddol	20	-			13,848
Heb eu cyfyngu	20	7,740			64,697
			<u>22,740</u>		<u>78,545</u>

Wedi ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ar 22 Ionawr 2025

Gwenallt Lloyd Ifan

Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan (*Cadeirydd*)

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae'r Gymdeithas Gerdd Dafod yn elusen gofrestredig wedi ei sefydlu o dan gyfansoddiad ysgrifenedig. Mae'r elusen wedi ei chofrestru yng Nghymru â chyfeiriad cofrestredig Cilgwyn, Llansannan, Dinbych, LL16 5HL.

2. POLISI'AU CYFRIFO

Y Sail Gyfrifyddol

Y mae datganiadau ariannol yr elusen wedi eu paratoi ar sail confensiwn cost hanesyddol ac yn unol ag FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland" y "Charities SORP (FRS 102)" a Deddf Elusennau 2011.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol, wedi ei ddiwygio ar gyfer ail brisio rhai asedau a dyledion ac eiddo buddsoddiad sydd wedi eu mesur yn ôl gwerth teg. Caiff y datganiad ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd Prydeinig (£), arian gweithredu'r elusen a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Busnes hyfyw

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 roedd gwariant yr elusen £55,805 yn uwch na'r incwm ("colled am y flwyddyn"). Roedd hyn yn cynwys lleihad yng ngwerth y stoc llyfrau ar 31 Mawrth 2024 o £21,361 i adlewyrchu llyfrau sy'n anhebygol o gael eu gwerthu yn y dyfodol rhagweladwy. Roedd stoc ar ddechrae'r flwyddyn yn £26,804 ac ar ddiwedd y flwyddyn yn £12,964; a'r gostyngiad o £13,840 yn rhan o'r golled yma (gweler nodyn 8).

Mae gweddill y golled am y flwyddyn yn adlewyrchu'r canlynol:

- Lleihad yng ngwerthiant llyfrau yn gyffredinol sy'n adlewyrchu'r hinsawdd economaidd. Mae hyn wedi effeithio ar y sector gyhoeddi yng Nghymru'n gyffredinol.
- Cynydd mewn costau gyda'r incwm yn sefydlog neu'n crebachu – eto'n adlewyrchu'r hinsawdd economaidd a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r sector.
- Rhaglen gyhoeddi uchelgeisiol yn 2023/24 gyda costau cynhyrchu uchel a gwerthiant yn sylweddol llai na'r disgwyl.
- Costau eithriadol i gydnabod 500 mlynedd ers i grefft y mesurau cynganeddol ('cerdd dafod') gael ei chydabod a'i safoni yn Eisteddfod Caerwys 1523.

Mae'r heriau ariannol wedi parhau yn 2024/25 ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i leihau a rheoli costau ac i sicrhau fod gan yr elusen yr adnoddau ariannol priodol i'w galluogi i barhau i weithredu a chyflawni amcanion yr elusen yn effeithiol.

Ar y sail hon mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus ei bod yn briodol i'r sail busnes hyfyw gael ei ddefnyddio wrth baratoi'r cyfrifon ac y bydd gan yr elusen gyfalaf gweithiol digonol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog yn cael eu cofnodi yn wreiddiol yn ôl eu cost ac yna'n cael eu datgan yn ôl eu cost llai dibrisiant ac unrhyw golledion amhariad. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd yn cael eu datgan ar ail brisiad yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad, llai unrhyw ddibrisio a cholledion amhariad pellach. Bydd cynnydd yng ngwerth ased yn sgil ail brisio yn cael ei gydnabod gydag elw a cholledion cydnabyddedig eraill heblaw ei fod yn gwyrddroi unrhyw elw cydnabyddedig a wnaed mewn blynnyddoedd cynt.

Dibrisiant

Mae'r dibrisiant ar yr asedau sefydlog cyffyrddadwy yn cael ei gyfrif fel bo cost yr asedau, llai eu gwerth gweddilliol, yn cael ei ddileu dros gyfnod bywyd economaidd arferol yr asedau. Y gyfradd a ddefnyddiwyd yw 25% ar ddull mantol yn gostwng.

Amhariad asedau sefydlog

Fe wneir adolygiad yn flynyddol os oes amhariad wedi digwydd i werth asedau sefydlog, ac os oes amhariad yn bodoli yna ail brisir yr ased yn unol â'r gwerth y gellir disgwyl amdano. Lle mae'r gwerth yn y llyfrau yn fwy na'r gwerth y gellir ei ddisgwyl, yna mae'r ased yn cael ei amharu.

Stoc

Y mae stoc wedi ei brisio ar yr isaf o gost a phris gwerthu, ar ôl cymryd i ystyriaeth oed a chyflwr y stoc. Y mae natur llyfrau'r Gymdeithas yn arbennig ac felly nid yw'r rhai sydd yn flwydd oed neu hyn yn cael eu prisio.

Cronfeydd anghyfyngedig

Cronfeydd heb eu cyfyngu yw rhoddion sy'n cael eu derbyn ac adnoddau eraill a dderbynnir, neu a grëir o dan nod yr elusennau, heb bwrpas penodedig ac maent ar gael fel Cronfeydd Cyffredinol.

Cronfeydd cyfyngedig

Mae'n rhaid i gronfeydd wedi eu cyfyngu cael eu defnyddio i bwrpas penodedig yn ôl dymuniad y rhoddwr. Mae gwariant sydd yn ateb y gofynion yma yn cael ei ddangos yn erbyn y gronfa. Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli'r asedau hynny y mae'n rhaid eu dal yn barhaol gan yr elusen, yn bennaf Cronfa Ewyllys Pat Neill. Gall incwm sy'n codi o'r cronfeydd gwaddol nad oes ei angen i wneud taliadau gwobrau gael ei ddefnyddio yn unol ag amcanion yr elusen ac mae wedi'i gynnwys fel incwm anghyfyngedig.

Adnoddau a Dderbynnir

Mae'r holl adnoddau a dderbynnir ar gyfer cynhyrchu llyfrau a'r cylchgrawn yn cael eu dangos yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan mae'r hawl cyfreithiol gan yr elusen i'r incwm a gellir adnabod y swm gyda sicrwydd rhesymol. Mae unrhyw grantiau cyfalaf yn cael eu hadnabod yn y flwyddyn y maent yn cael eu derbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Grantiau

Mae grantiau a dderbynnir ar gyfer cynhyrchu llyfrau a'r cylchgrawn yn cael eu dangos yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y maent yn cael eu derbyn.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

Adnoddau a dreuliwyd

Cyfrifir yr holl gostau ar raddfa croniad ac fe'u cyfrifir o dan benawdau sy'n cyfrannu'r holl gostau sy'n berthnasol i'r categori. Mae costau codi arian yn cynnwys treuliau ynglŷn â chwilio am gyfraniadau gwirfoddol yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys costau gwybodaeth daenedig sy'n cefnogi'r gweithgareddau elusennol. Costau cynhaliaeth yw'r rhai hynny sy'n digwydd yn uniongyrchol i gadarnhau'r gwariant ar amcanion yr elusen. Costau gweinyddol yw'r rhai sydd ynglŷn â gweinyddiaeth yr elusen a'r angen i gydymffurfio ag anghenion cyfansoddiadol a statudol.

Treth

Ni wnaed darpariaeth treth gorfforaeth na threthiant a ohiriwyd gan fod yr elusen yn un gofrestredig ac felly yn cael eu heithrio ar ei weithgareddau elusennol.

Offerynnau ariannol

Mae ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn cael ei gydnabod pan fod hawl gan yr elusen i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Hawliwyd offerynnau ariannol sylfaenol am bris y trafodyn. Ond os yw'r trefniad yn drafodyn ariannu, rhaid cydnabod gwerth presennol taliadau dyfodol yr offeryn ariannol wedi disgowntio ar gyfradd y farchnad. Ar ddiwedd pob blwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o amhariad yn yr asedau ariannol. Os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad, rhaid cydnabod y golled ar unwaith yn y cyfrif incwm a cholledion. Os oes gwrthdroad o amhariad, rhaid cydnabod y gwrthdroad yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar unwaith. Ni cheir cynyddu gwerth yr ased ariannol i ffigwr fwy na'r ffigwr gwreiddiol cyn yr amhariad.

3. RHODDION A CHYMYNRODDION

	2024	2024	2023	2023
	Anghyfyngedig	Cyfanswm	Anghyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£	£
Grantiau	75,689	75,689	83,040	83,040
Tanysgrifiadau	12,767	12,767	12,532	12,532
Rhoddion	100	100	-	-
Lwfans Cyflogaeth	2,876	2,876	2,212	2,212
	91,432	91,432	97,784	97,784

	2024	2023
	£	£
Cyngor Llyfrau Cymru		
Grant Cylchgrawn am y flwyddyn	24,000	20,000
Grant Llyfrau am y flwyddyn	23,625	27,000
Grant swydd am y flwyddyn	15,180	15,180
Grant awduron am y flwyddyn	12,884	18,840
Grantiau eraill am y flwyddyn	-	-
Grant marchnata	-	2,020
	75,689	83,040

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

4. INCWM GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2024	2024	2024	2023
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Gwerthiant llyfrau a chylchgronau	16,954	-	16,954	26,018
Hysbysebu	-	-	-	25
Gŵyl Gerallt	1,414	-	1,414	826
Gwyl Canol Dre	-	-	-	150
Eisteddfod	4,003	-	4,003	2,314
Incwm arall	2,670	-	2,670	486
	25,041	-	25,041	29,819

5. INCWM BUDDSODDIAD

	2024	2024	2024	2023
	Anghyfyngedig	Gwaddol	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Llog a dderbyniwyd	218	185	403	106
Gwobr teyrngarwch banc	10	-	10	18
	228	185	413	124

6. GWARIANT AR WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2024	2024	2024
	Anghyfyngedig	Gwaddol	Cyfanswm
	£	£	£
Cynhyrchu cylchgrawn	34,634	-	34,634
Cynhyrchu llyfrau	110,576	-	110,576
Gwariant elusennol eraill	12,544	185	12,729
Gweinyddiaeth a rheolaeth	14,752	-	14,752
	172,506	185	172,691

	2023	2023	2023
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£
Cynhyrchu cylchgrawn	33,027	-	33,027
Cynhyrchu llyfrau	78,655	-	78,655
Gwariant elusennol eraill	6,991	75	7,066
Gweinyddiaeth a rheolaeth	12,030	-	12,030
	130,703	75	130,778

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

7. COSTAU CYNHYRCHU'R CYLCHGRAWN

	2024	2023
	£	£
Golygyddion Llawrydd	9,600	8,990
Cynhyrchu a dosbarthu Barddas	15,686	14,353
Cyfranwyr Barddas	2,825	3,771
Elfen o gyflog a phensiwn	6,443	5,793
Gwobrau	80	120
	34,634	33,027

8. COSTAU CYNHYRCHU LLYFRAU

	2024	2023
	£	£
Stoc ar 1 Ebrill 2023	26,804	14,744
Cynhyrchu llyfrau yn y cyfnod	43,581	40,771
Stoc ar 31 Mawrth 2024	(12,964)	(26,804)
	57,421	28,711
Cyflog golygydd a chyfran o gyflogau gweinyddwr	29,188	24,808
Golygydd Llawrydd	7,652	3,304
Taliadau i gyfranwyr ac awduron	12,969	17,572
Lansio	1,750	2,134
Hysbysebu, cyhoeddusrwydd a gwobrau	1,596	2,126
	110,576	78,655

9. GWARIANT ELUSENNOL ARALL

	2024	2023
	£	£
Eisteddfod Genedlaethol	4,585	4,320
Nawdd Llenyddiaeth Cymru (Cronfa Gerallt)	-	150
Gwyl Canol Dre	-	150
Gŵyl Gerallt	7,361	1,220
Cyhoeddi Podlediad	-	300
Nwyddau – bagiau, mygiau	72	263
Dylunio	526	588
Tlws Pat Neill	185	75
	12,729	7,066

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

10. GWEINYDDU A RHEOLAETH

	2024	2023
	£	£
Elfen o gyflogau	6,443	5,793
Cyfrifo	1,354	1,299
Cadw Llyfrau	1,044	612
Post a chostau swyddfa	598	495
Teithio a chynhaliaeth	1,896	767
Rhent a storio	780	624
Yswiriant	754	1,428
Dyledwyr drwg	-	(1,450)
Costau banc	149	235
Manion	317	290
Aelodaeth	-	-
Hysbysebu	1,039	1,771
Costau Zoom a chyfrifiadur	166	166
Dibrisiant	212	-
	14,752	12,030

11. GWARIANT ELUSENNOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau cefnogi	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Cynhyrchu llyfrau	110,576	9,655	120,231	86,981
Cynhyrchu cylchgrawn	34,634	3,024	37,658	36,523
Gwariant elusennol arall	12,729	1,086	13,842	7,814
Llywodraethu	-	960	960	(540)
	157,939	14,752	172,691	130,778

12. DADANSODDIAD O GOSTAU CEFNOGI

	Cynhyrchu llyfrau	Cynhyrchu cylchgrawn	Gwariant Elusennol Arall	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£	£
Costau staff	5,238	1,641	603	7,482	7,564
Costau eiddo	148	46	18	212	
Costau swyddfa gyffredinol	4,269	1,337	492	6,098	5,006
Costau llywodraethu	672	211	77	960	(540)
	10,327	3,235	1,190	14,752	12,030

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

13. ADNODDAU A DDERBYNIWYD / DREULIWYD NET

	2024	2023
	£	£
Y mae wedi ei ddatgan ar ôl tynnu: - Dibrisiant	212	-

14. FFIOEDD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL

	2024	2023
	£	£
Adroddiad ar y cyfrifon	960	910
Gwasanaethau cyflogau	394	389
	<u>1,354</u>	<u>1,299</u>

15. CYFLOGAU

	2024	2023
	£	£
Cyflogau	37,518	32,446
Nawdd cymdeithasol	2,876	2,350
Pensiwn Cyflogwr	1,680	1,598
	<u>42,074</u>	<u>36,394</u>

Ni enillodd unrhyw weithiwr £60,000 neu fwy (2023 – dim).
Cyfartaledd nifer y gweithwyr am y flwyddyn oedd 2 (2023 – 2).

16. ASED AU PARHAOL CYFFYRDADWY

	Offer swyddfa
Cost	£
Ar y 1af o Ebrill 2023 a 31 o Fawrth 2024	5,082
Ychwanegiadau	849
	<u>5,931</u>
Dibrisiant	
Ar y 1af o Ebrill 2023	5,082
Dibrisiant	212
Ar y 31 o Fawrth 2024	<u>5,294</u>
Gwir werth llyfr ar y 31 o Fawrth 2024	<u>637</u>
Gwir werth llyfr ar y 31 o Fawrth 2023	<u>-</u>

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

17. STOC

	2024	2023
	£	£
Llyfrau	<u>12,964</u>	<u>26,804</u>

18. DYLEDWYR

	2024	2023
	£	£
Dyledwyr gweithredol	4,558	1,895
Dyledwyr eraill	-	-
Rhagdaliadau	<u>3,102</u>	<u>1,908</u>
	<u>7,660</u>	<u>3,803</u>

19. CREDYDWYR

	2024	2023
	£	£
Yn daladwy o fewn y flwyddyn		
Credydwy'r gweithredol	12,372	16,614
Credydwy'r eraill a nawdd cymdeithasol	1,753	638
Croniadau ac incwm gohiriedig	<u>601</u>	<u>601</u>
	<u>14,726</u>	<u>17,853</u>

20. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD

	1 Ebrill 2023	Adnoddau Mewn	Adnoddau Allan	Trosglwyddo	31 Mawrth 2024
	£	£	£	£	£
Cronfeydd wedi'u cyfyngu	13,848	-	-	(13,848)	-
Cronfeydd gwaddol - Ewyllys Pat Neil	-	185	(185)	15,000	15,000
	<u>13,848</u>	<u>185</u>	<u>(185)</u>	<u>1,152</u>	<u>15,000</u>
Cronfeydd heb eu cyfyngu					
Cronfa Gyffredinol	64,697	116,701	(172,506)	(1,152)	7,740
	<u>64,697</u>	<u>116,701</u>	<u>(172,506)</u>	<u>(1,152)</u>	<u>7,740</u>
	<u>78,545</u>	<u>116,886</u>	<u>(172,691)</u>	<u>-</u>	<u>22,740</u>

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ail ystyried cronfa Ewyllys Pat Neill yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 ac wedi dod i'r penderfyniad nid yn unig ei bod yn gronfa wedi e'i chyfyngu, ond hefyd yn gronfa waddol. Yn ôl amodau'r gymynrodd, mae rhaid i'r gronfa sefyll ar £15,000 yn barhaol, felly mae £1,152 wedi ei drosglwyddo o'r gronfa gyffredinol i gronfa Ewyllys Pat Neil (gweler polisiau cronfeydd cyfyngedig ar dudalen 11).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

21. DADANSODDIAD O ASEDau NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau cyfredol net	Cyfanswm
	£	£	£
Cronfa gwaddol	-	15,000	15,000
Cronfeydd wedi'u cyfyngu	-	-	-
Cronfeydd heb eu cyfyngu	637	7,103	7,740
Cyfanswm	637	22,103	22,740

22. TRAFODION GYDA YMDDIRIEDOLWYR NEU Bersonau Cysylltiedig neu Debyg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol i gyfarfod, rheoli a chynnal gweithgaredd y Gymdeithas, heb unrhyw dâl neu gydnabyddiaeth yn uniongyrchol nag yn anuniongyrchol o gronfa'r elusen am wneud hynny.

Yr unig eithriad yw cydnabyddiaeth ar ffurf ffi yn ymwneud â gwaith llenyddol creadigol y Gymdeithas. Lle rhoir cydnabyddiaeth i Ymddiriedolwyr am hynny, mae'n bolisi datgan yr hyn â gânt yn agored, a cheir dadansoddiad isod, felly, o'r taliadau i Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn adrodd. Lle telir i Ymddiriedolwyr am waith creadigol, gwneir hynny ar yr un telerau yn union â chyfranwyr eraill nad ydynt yn Ymddiriedolwyr, yn ddieithriad.

1. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy gytundeb safonol y Gymdeithas ag awduron cyfrolau:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Rhys Dafis	Gweld llun o glywed llinell	Awdur	500

2. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy gytundeb safonol y Gymdeithas â chomisiynwyr a golygyddion cyfrolau:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Nerys Mari George	Cerddi'r Arfordir	Golygydd	700

3. Yn achos 1 a 2 uchod, yn unol â'r arfer cytundebol, derbyniodd yr awduron / comisiynwyr / golygyddion 12 o argraffiad cyntaf eu cyfrol am ddim.
4. Yn unol â'r arfer ers sefydlu'r Gymdeithas, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd gopi am ddim o bob cyfrol a gyhoeddwyd tra oeddent yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

5. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy drefniant golygyddol am eu cyfraniadau creadigol i'r cylchgrawn Barddas neu i gyfrolau (yn cynnwys breindal):

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	60
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Eisteddfod	30
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	50
Rhys Dafis	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	50
Joanne Debra Heyde	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	60
Joanne Debra Heyde	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100
Tudur Dylan Jones	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd a lluniau	450
Aneirin Karadog	Tymor Da	Cyfrannu cerdd	70
Aneirin Karadog	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100
Elinor Reynolds	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100

6. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol am waith arbenigol yn trefnu digwyddiadau hyrwyddol:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur		Gwyl Gerallt	80
Gruffudd Antur		Meurynna Eisteddfod	360
Rhys Dafis		Gwyl Gerallt	410
Mari George		Gwyl Gerallt	60
Meirion Jones		Eisteddfod Englyn y Dydd	30
Tudur Dylan Jones		Gwyl Gerallt	40
Aneirin Karadog		Gwyl Gerallt	48
Aneirin Karadog		Eisteddfod	200
Gwenallt Llwyd Ifan		Gwyl Gerallt	40
Dafydd Meirion Jones		Gwyl Gerallt	40
Dafydd John Pritchard		Gwyl Gerallt	40
Llion Elis Jones		Gwyl Gerallt	40
Sgrifen Cyf		Gwyl Gerallt	140
(Cwmni personol Mererid Hopwood)			

7. Talwyd 5 ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) costau teithio a llety yn ystod y flwyddyn am gyfanswm o £782.

Rhif yr elusen: 511899

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD
BARDDAS
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN
YN Y DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

CYNNWYS

Disgrifiad	Tudalen
Manylion yr ymddiriedolwyr a'r pwyllgor gwaith	2
Adroddiad yr ymddiriedolwyr	3
Adroddiad yr archwiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgaredd ariannol	8
Mantolen	9
Nodiadau	10

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ynghyd â datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024.

Gwybodaeth gyffredinol a manylion gweinyddiaeth yr elusen, yr Ymddiriedolwyr oedd yn gweithredu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 a'i ymgynghorwyr: -

Enw Cofrestredig yr Elusen	Y Gymdeithas Gerdd Dafod
Rhif Cofrestru'r Elusen	511899
Cyfeiriad Cofrestredig	Cilgwyn, Llansannan, Dinbych, LL16 5HL

Llywydd Anrhydeddus	Dafydd Islwyn
---------------------	---------------

Ymddiriedolwyr (Y Pwyllgor Gwaith)

Cadeirydd	Y Prifardd Aneirin Karadog (ymddeolodd 6 Medi 2023) Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan (cyfetholwyd 6 Medi 2023)
Is-gadeirydd	Y Prifardd Llion Elis Jones (ymddeolodd 6 Medi 2023) Y Prifardd Aneirin Karadog (penodwyd 6 Medi 2023)
Trysorydd	Llŷr James (ymddeolodd 6 Medi 2023) Dafydd Meirion Jones (cyfetholwyd 6 Medi 2023)
Ysgrifennydd	Rhys Dafis (ymddeolodd 31 Mawrth 2024)
Darpar ysgrifennydd	Aled Maredudd Evans (cyfetholwyd 06 Medi 2023)

Y Prifardd Llion Elis Jones
Gruffudd Antur Edwards
Nerys Mari George
Y Prifardd Mererid Hopwood
Y Prifardd Tudur Dylan Jones
Y Prifardd Osian Rhys Jones
Y Prifardd Dafydd John Pritchard
Joanne Debra Heyde
Elinor Wyn Reyonlds

Golygydd Llawrydd

Y Prifardd Twm Morys

Staff

Alaw Griffiths (gadael Mehefin 2023)
Bethany Celyn Jukes-Hughes
Heledd Williams (ymuno Medi 2023)

Archwiliwr Annibynnol

R A Roberts BSc, FCA
Hill & Roberts
Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Strwythur a rheolaeth y cronfeydd elusennol

Mae Y Gymdeithas Gerdd Dafod (y “Gymdeithas”) yn fenter wedi ei sefydlu o dan gyfansoddiad ysgrifenedig ac yn cael ei gweinyddu gan Bwyllgor Gwaith. Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn Ymddiriedolwr/wraig yn yr elusen. Mae'r Gymdeithas elusennol wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 511899).

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ei ethol o blith aelodau'r Gymdeithas. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am reoli gwaith y Gymdeithas ar ran yr aelodau. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ethol swyddogion o'u plith.

Nodau ac amcanion

Nod y Gymdeithas yw addysgu'r cyhoedd i werthfawrogi a deall barddoniaeth Gymraeg, yn enwedig y gelf o gynganeddu a hybu'r rhai sydd am farddoni.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Mae'r Gymdeithas yn gweithio i gyflawni ei hamcanion drwy gyhoeddi o leiaf pedwar rhifyn o'r cylchgrawn *Barddas* yn flynyddol, cyhoeddi llyfrau, a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau hyrwyddol amrywiol ledled Cymru ac ar y cyfryngau.

Trefniant a Gweithgareddau

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd y llyfrau canlynol gyda chymorth y Cyngor Llyfrau: -

Y Gragen; Oriel y Bardd; Gwawrio; Mymryn Rhyddid; Curiadau: Bloeugerdd LHDTC+; Dau Lais: Detholiad o Waith Gwilym Ceri Jones; Prifeirdd Cymru - Llŷn ac Eifionydd; Gweld Llun o Glywed Llinell; Pigion y Talwrn 14; Mae Gêm yn Fwy Na Gêm: Blodeugerdd Chwaraeon; Tymor Da; Cerddi'r Arfordir.

Cyhoeddwyd 5 rhifyn o *Barddas* a chynhaliwyd cystadlaethau Tlysau *Barddas* yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd a Gwyl Gerallt yng Nghaerwys a'r cyffiniau, yn ogystal a nifer o lansiadau Creola newydd. Mewn partneriaeth â'r BBC, trefnwyd “Bardd y Mis” ar gyfer darllediadau Radio Cymru a chyromyid yn gyson at raglenni'n trafod barddoniaeth.

Adolygiad ariannol

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i dderbyn grantiau oddi wrth Cyngor Llyfrau Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o £75,689 (2022-23: £83,040). Mae canlyniadau'r elusen i'w gweld yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cyfanswm incwm oedd £116,886 (2023 - £127,727) a chyfanswm gwariant oedd £172,691 (2023 - £130,778). Mae hyn yn gadael gwariant net o £55,805 wedi tynnu o gronfeydd yr elusen am y flwyddyn (2023 – gwariant net £3,051).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Polisi cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhydd, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr elusen.

Mae'r gronfa anghyfyngedig wedi disgyn i lefel sy'n is na sy'n ddelfrydol ar 31 Mawrth 2024. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cydnabod hyn ac wedi rhoi cynllun mewn lle i godi'r gronfa yn ôl i'r lefel sy'n cyfateb a'r polisi. Gweler sylwadau ar dudalen 9 "Busnes hyfyw".

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae'r Elusen yn defnyddio cyfrifon cadw yn y banc, er mwyn ennill ychydig log a chadw arian yr Elusen yn ddiogel.

Rheolaeth Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gwneud arolwg risg ym meysydd strategaeth, busnes a gweithredol yr Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg ragweladwy.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Gymdeithas yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Llyfrau Cymru a bwriada'r elusen barhau i gyhoeddi llyfrau, cyhoeddi'r cylchgrawn, cynnal digwyddiadau hyrwyddol amrywiol (megis lansiadau, ymrysonau, cystadleuthau barddoniaeth a Gŵyl flynyddol).

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr fel Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (parhad)

Mae cyfraith sy'n berthnasol i elusennau yn gofyn bod yr Ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion yr elusen fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol yr elusen ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a chyfansoddiad yr elusen. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Datganiad

Mae adroddiad yr Ymddiriedolwyr wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr.

Arwyddwyd *A M Evans*

Aled Maredudd Evans – Ysgrifennydd

Dyddiad 22 Ionawr 2025

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

Adroddaf i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Y Gymdeithas Gerdd Dafod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024 fel ag y gwelir ar dudalennau 8 hyd 19.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel Ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

- cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yngylch ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Mae dau fater wedi dod i'm sylw yn ystod fy archwiliad o gofnodion cyfrifyddu'r elusen y tynnaf sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu amodau'r gymynrodd a dderbyniwyd o dan ewyllys Pat Neill. Mae'r ymddiriedolwyr bellach yn credu bod y gronfa gyfyngedig hon hefyd yn gronfa waddol ac felly maent wedi trosglwyddo digon o arian cyffredinol i adfer y gronfa i gydymffurfio â'r amodau hynny ac wedi cynrychioli'r gronfa o fewn y datganiadau ariannol ar dudalennau 8, 9, 11 ac yn fwy arbennig yn nodyn 20 ar dudalen 17.

Y gwariant net ar gyfer y flwyddyn cyn trosglwyddo arian oedd £55,805 o'i gymharu â £3,051 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu'r rhesymau dros y lefel uchel hon o wariant net ac wedi nodi eu hesboniadau ar dudalen 10 o dan y polisi Cyfrifo 'Busnes Gweithredol'. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i leihau costau a gwella adnoddau ariannol yr elusen o fewn y cyfnod ariannol canlynol a sicrhau parhad yr elusen a chyflawni amcanion yr elusen.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Llofnodwyd ***R A Roberts***

Richard Andrew Roberts BSc FCA

Hill & Roberts, Cyfrifwyr Siartredig, 1 Tan y Castell Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1DQ

Dyddiad 23 Ionawr 2025

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024 Cronfa heb gyfyngiad £	2024 Cronfa wedi ei gyfyngu £	2024 Cronfa gwaddol £	2024 Cyfanswm cronfeydd £	2023 Cyfanswm cronfeydd £
Adnoddau a dderbyniwyd						
Rhoddion a chymynroddion	3	91,432	-	-	91,432	97,784
Gweithgareddau elusennol	4	25,041	-	-	25,041	29,819
Buddsoddiadau	5	228	-	185	413	124
		116,701	-	185	116,886	127,727
Adnoddau a dreuliwyd						
Gweithgareddau elusennol	6	172,506	-	185	172,691	130,778
Cyfanswm gwariant		172,506	-	185	172,691	130,778
Incwm/ (Gwariant) Net		(55,805)	-	-	(55,805)	(3,051)
Symudiadau net rhwng cronfeydd		(1,152)	(13,848)	15,000	-	-
Adnoddau a dderbyniwyd net		(56,957)	-	15,000	(55,805)	(3,051)
Cyfanswm cronfeydd 1 Ebrill 2023		64,697	13,848	-	78,545	81,596
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2024		7,740	-	15,000	22,740	78,545

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024		2023	
		£	£	£	£
ASEDAU PARHAOL					
Asedau cyffyrddadwy	16		637		-
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	17	12,964		26,804	
Dyledwyr a Rhagdaliadau	18	7,660		3,803	
Arian yn y banc		16,205		65,791	
		<u>36,829</u>		<u>96,398</u>	
CREDYDWYR					
Yn daladwy o fewn y flwyddyn	19	14,726		17,853	
			<u>22,103</u>		78,545
			<u>22,740</u>		<u>78,545</u>
CRONFEYDD					
Gwaddol	20	15,000			-
Wedi eu cyfyngu gwaddol	20	-			13,848
Heb eu cyfyngu	20	7,740			64,697
			<u>22,740</u>		<u>78,545</u>

Wedi ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ar 22 Ionawr 2025

Gwenallt Lloyd Ifan

Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan (*Cadeirydd*)

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae'r Gymdeithas Gerdd Dafod yn elusen gofrestredig wedi ei sefydlu o dan gyfansoddiad ysgrifenedig. Mae'r elusen wedi ei chofrestru yng Nghymru â chyfeiriad cofrestredig Cilgwyn, Llansannan, Dinbych, LL16 5HL.

2. POLISI'AU CYFRIFO

Y Sail Gyfrifyddol

Y mae datganiadau ariannol yr elusen wedi eu paratoi ar sail confensiwn cost hanesyddol ac yn unol ag FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland" y "Charities SORP (FRS 102)" a Deddf Elusennau 2011.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol, wedi ei ddiwygio ar gyfer ail brisio rhai asedau a dyledion ac eiddo buddsoddiad sydd wedi eu mesur yn ôl gwerth teg. Caiff y datganiad ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd Prydeinig (£), arian gweithredu'r elusen a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Busnes hyfyw

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 roedd gwariant yr elusen £55,805 yn uwch na'r incwm ("colled am y flwyddyn"). Roedd hyn yn cynwys lleihad yng ngwerth y stoc llyfrau ar 31 Mawrth 2024 o £21,361 i adlewyrchu llyfrau sy'n anhebygol o gael eu gwerthu yn y dyfodol rhagweladwy. Roedd stoc ar ddechrae'r flwyddyn yn £26,804 ac ar ddiwedd y flwyddyn yn £12,964; a'r gostyngiad o £13,840 yn rhan o'r golled yma (gweler nodyn 8).

Mae gweddill y golled am y flwyddyn yn adlewyrchu'r canlynol:

- Lleihad yng ngwerthiant llyfrau yn gyffredinol sy'n adlewyrchu'r hinsawdd economaidd. Mae hyn wedi effeithio ar y sector gyhoeddi yng Nghymru'n gyffredinol.
- Cynydd mewn costau gyda'r incwm yn sefydlog neu'n crebachu – eto'n adlewyrchu'r hinsawdd economaidd a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r sector.
- Rhaglen gyhoeddi uchelgeisiol yn 2023/24 gyda costau cynhyrchu uchel a gwerthiant yn sylweddol llai na'r disgwyl.
- Costau eithriadol i gydnabod 500 mlynedd ers i grefft y mesurau cynganeddol ('cerdd dafod') gael ei chydabod a'i safoni yn Eisteddfod Caerwys 1523.

Mae'r heriau ariannol wedi parhau yn 2024/25 ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i leihau a rheoli costau ac i sicrhau fod gan yr elusen yr adnoddau ariannol priodol i'w galluogi i barhau i weithredu a chyflawni amcanion yr elusen yn effeithiol.

Ar y sail hon mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus ei bod yn briodol i'r sail busnes hyfyw gael ei ddefnyddio wrth baratoi'r cyfrifon ac y bydd gan yr elusen gyfalaf gweithiol digonol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog yn cael eu cofnodi yn wreiddiol yn ôl eu cost ac yna'n cael eu datgan yn ôl eu cost llai dibrisiant ac unrhyw golledion amhariad. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd yn cael eu datgan ar ail brisiad yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad, llai unrhyw ddibrisio a cholledion amhariad pellach. Bydd cynnydd yng ngwerth ased yn sgil ail brisio yn cael ei gydnabod gydag elw a cholledion cydnabyddedig eraill heblaw ei fod yn gwyrddroi unrhyw elw cydnabyddedig a wnaed mewn blynnyddoedd cynt.

Dibrisiant

Mae'r dibrisiant ar yr asedau sefydlog cyffyrddadwy yn cael ei gyfrif fel bo cost yr asedau, llai eu gwerth gweddilliol, yn cael ei ddileu dros gyfnod bywyd economaidd arferol yr asedau. Y gyfradd a ddefnyddiwyd yw 25% ar ddull mantol yn gostwng.

Amhariad asedau sefydlog

Fe wneir adolygiad yn flynyddol os oes amhariad wedi digwydd i werth asedau sefydlog, ac os oes amhariad yn bodoli yna ail brisir yr ased yn unol â'r gwerth y gellir disgwyl amdano. Lle mae'r gwerth yn y llyfrau yn fwy na'r gwerth y gellir ei ddisgwyl, yna mae'r ased yn cael ei amharu.

Stoc

Y mae stoc wedi ei brisio ar yr isaf o gost a phris gwerthu, ar ôl cymryd i ystyriaeth oed a chyflwr y stoc. Y mae natur llyfrau'r Gymdeithas yn arbennig ac felly nid yw'r rhai sydd yn flwydd oed neu hyn yn cael eu prisio.

Cronfeydd anghyfyngedig

Cronfeydd heb eu cyfyngu yw rhoddion sy'n cael eu derbyn ac adnoddau eraill a dderbynnir, neu a grëir o dan nod yr elusennau, heb bwrpas penodedig ac maent ar gael fel Cronfeydd Cyffredinol.

Cronfeydd cyfyngedig

Mae'n rhaid i gronfeydd wedi eu cyfyngu cael eu defnyddio i bwrpas penodedig yn ôl dymuniad y rhoddwr. Mae gwariant sydd yn ateb y gofynion yma yn cael ei ddangos yn erbyn y gronfa. Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli'r asedau hynny y mae'n rhaid eu dal yn barhaol gan yr elusen, yn bennaf Cronfa Ewyllys Pat Neill. Gall incwm sy'n codi o'r cronfeydd gwaddol nad oes ei angen i wneud taliadau gwobrau gael ei ddefnyddio yn unol ag amcanion yr elusen ac mae wedi'i gynnwys fel incwm anghyfyngedig.

Adnoddau a Dderbynnir

Mae'r holl adnoddau a dderbynnir ar gyfer cynhyrchu llyfrau a'r cylchgrawn yn cael eu dangos yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan mae'r hawl cyfreithiol gan yr elusen i'r incwm a gellir adnabod y swm gyda sicrwydd rhesymol. Mae unrhyw grantiau cyfalaf yn cael eu hadnabod yn y flwyddyn y maent yn cael eu derbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Grantiau

Mae grantiau a dderbynnir ar gyfer cynhyrchu llyfrau a'r cylchgrawn yn cael eu dangos yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y maent yn cael eu derbyn.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

Adnoddau a dreuliwyd

Cyfrifir yr holl gostau ar raddfa croniad ac fe'u cyfrifir o dan benawdau sy'n cyfrannu'r holl gostau sy'n berthnasol i'r categori. Mae costau codi arian yn cynnwys treuliau ynglŷn â chwilio am gyfraniadau gwirfoddol yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys costau gwybodaeth daenedig sy'n cefnogi'r gweithgareddau elusennol. Costau cynhaliaeth yw'r rhai hynny sy'n digwydd yn uniongyrchol i gadarnhau'r gwariant ar amcanion yr elusen. Costau gweinyddol yw'r rhai sydd ynglŷn â gweinyddiaeth yr elusen a'r angen i gydymffurfio ag anghenion cyfansoddiadol a statudol.

Treth

Ni wnaed darpariaeth treth gorfforaeth na threthiant a ohiriwyd gan fod yr elusen yn un gofrestredig ac felly yn cael eu heithrio ar ei weithgareddau elusennol.

Offerynnau ariannol

Mae ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn cael ei gydnabod pan fod hawl gan yr elusen i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Hawliwyd offerynnau ariannol sylfaenol am bris y trafodyn. Ond os yw'r trefniad yn drafodyn ariannu, rhaid cydnabod gwerth presennol taliadau dyfodol yr offeryn ariannol wedi disgowntio ar gyfradd y farchnad. Ar ddiwedd pob blwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o amhariad yn yr asedau ariannol. Os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad, rhaid cydnabod y golled ar unwaith yn y cyfrif incwm a cholledion. Os oes gwrthdroad o amhariad, rhaid cydnabod y gwrthdroad yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar unwaith. Ni cheir cynyddu gwerth yr ased ariannol i ffigwr fwy na'r ffigwr gwreiddiol cyn yr amhariad.

3. RHODDION A CHYMYNRODDION

	2024	2024	2023	2023
	Anghyfyngedig	Cyfanswm	Anghyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£	£
Grantiau	75,689	75,689	83,040	83,040
Tanysgrifiadau	12,767	12,767	12,532	12,532
Rhoddion	100	100	-	-
Lwfans Cyflogaeth	2,876	2,876	2,212	2,212
	91,432	91,432	97,784	97,784

	2024	2023
	£	£
Cyngor Llyfrau Cymru		
Grant Cylchgrawn am y flwyddyn	24,000	20,000
Grant Llyfrau am y flwyddyn	23,625	27,000
Grant swydd am y flwyddyn	15,180	15,180
Grant awduron am y flwyddyn	12,884	18,840
Grantiau eraill am y flwyddyn	-	-
Grant marchnata	-	2,020
	75,689	83,040

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

4. INCWM GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2024	2024	2024	2023
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Gwerthiant llyfrau a chylchgronau	16,954	-	16,954	26,018
Hysbysebu	-	-	-	25
Gŵyl Gerallt	1,414	-	1,414	826
Gwyl Canol Dre	-	-	-	150
Eisteddfod	4,003	-	4,003	2,314
Incwm arall	2,670	-	2,670	486
	25,041	-	25,041	29,819

5. INCWM BUDDSODDIAD

	2024	2024	2024	2023
	Anghyfyngedig	Gwaddol	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Llog a dderbyniwyd	218	185	403	106
Gwobr teyrngarwch banc	10	-	10	18
	228	185	413	124

6. GWARIANT AR WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2024	2024	2024
	Anghyfyngedig	Gwaddol	Cyfanswm
	£	£	£
Cynhyrchu cylchgrawn	34,634	-	34,634
Cynhyrchu llyfrau	110,576	-	110,576
Gwariant elusennol eraill	12,544	185	12,729
Gweinyddiaeth a rheolaeth	14,752	-	14,752
	172,506	185	172,691

	2023	2023	2023
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£
Cynhyrchu cylchgrawn	33,027	-	33,027
Cynhyrchu llyfrau	78,655	-	78,655
Gwariant elusennol eraill	6,991	75	7,066
Gweinyddiaeth a rheolaeth	12,030	-	12,030
	130,703	75	130,778

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

7. COSTAU CYNHYRCHU'R CYLCHGRAWN

	2024	2023
	£	£
Golygyddion Llawrydd	9,600	8,990
Cynhyrchu a dosbarthu Barddas	15,686	14,353
Cyfranwyr Barddas	2,825	3,771
Elfen o gyflog a phensiwn	6,443	5,793
Gwobrau	80	120
	34,634	33,027

8. COSTAU CYNHYRCHU LLYFRAU

	2024	2023
	£	£
Stoc ar 1 Ebrill 2023	26,804	14,744
Cynhyrchu llyfrau yn y cyfnod	43,581	40,771
Stoc ar 31 Mawrth 2024	(12,964)	(26,804)
	57,421	28,711
Cyflog golygydd a chyfran o gyflogau gweinyddwr	29,188	24,808
Golygydd Llawrydd	7,652	3,304
Taliadau i gyfranwyr ac awduron	12,969	17,572
Lansio	1,750	2,134
Hysbysebu, cyhoeddusrwydd a gwobrau	1,596	2,126
	110,576	78,655

9. GWARIANT ELUSENNOL ARALL

	2024	2023
	£	£
Eisteddfod Genedlaethol	4,585	4,320
Nawdd Llenyddiaeth Cymru (Cronfa Gerallt)	-	150
Gwyl Canol Dre	-	150
Gŵyl Gerallt	7,361	1,220
Cyhoeddi Podlediad	-	300
Nwyddau – bagiau, mygiau	72	263
Dylunio	526	588
Tlws Pat Neill	185	75
	12,729	7,066

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

10. GWEINYDDU A RHEOLAETH

	2024	2023
	£	£
Elfen o gyflogau	6,443	5,793
Cyfrifo	1,354	1,299
Cadw Llyfrau	1,044	612
Post a chostau swyddfa	598	495
Teithio a chynhaliaeth	1,896	767
Rhent a storio	780	624
Yswiriant	754	1,428
Dyledwyr drwg	-	(1,450)
Costau banc	149	235
Manion	317	290
Aelodaeth	-	-
Hysbysebu	1,039	1,771
Costau Zoom a chyfrifiadur	166	166
Dibrisiant	212	-
	14,752	12,030

11. GWARIANT ELUSENNOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau cefnogi	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Cynhyrchu llyfrau	110,576	9,655	120,231	86,981
Cynhyrchu cylchgrawn	34,634	3,024	37,658	36,523
Gwariant elusennol arall	12,729	1,086	13,842	7,814
Llywodraethu	-	960	960	(540)
	157,939	14,752	172,691	130,778

12. DADANSODDIAD O GOSTAU CEFNOGI

	Cynhyrchu llyfrau	Cynhyrchu cylchgrawn	Gwariant Elusennol Arall	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£	£
Costau staff	5,238	1,641	603	7,482	7,564
Costau eiddo	148	46	18	212	
Costau swyddfa gyffredinol	4,269	1,337	492	6,098	5,006
Costau llywodraethu	672	211	77	960	(540)
	10,327	3,235	1,190	14,752	12,030

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

13. ADNODDAU A DDERBYNIWYD / DREULIWYD NET

	2024	2023
	£	£
Y mae wedi ei ddatgan ar ôl tynnu: - Dibrisiant	212	-

14. FFIOEDD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL

	2024	2023
	£	£
Adroddiad ar y cyfrifon	960	910
Gwasanaethau cyflogau	394	389
	<u>1,354</u>	<u>1,299</u>

15. CYFLOGAU

	2024	2023
	£	£
Cyflogau	37,518	32,446
Nawdd cymdeithasol	2,876	2,350
Pensiwn Cyflogwr	1,680	1,598
	<u>42,074</u>	<u>36,394</u>

Ni enillodd unrhyw weithiwr £60,000 neu fwy (2023 – dim).
Cyfartaledd nifer y gweithwyr am y flwyddyn oedd 2 (2023 – 2).

16. ASEDAU PARHAOL CYFFYRDADWY

	Offer swyddfa
Cost	£
Ar y 1af o Ebrill 2023 a 31 o Fawrth 2024	5,082
Ychwanegiadau	849
	<u>5,931</u>
Dibrisiant	
Ar y 1af o Ebrill 2023	5,082
Dibrisiant	212
Ar y 31 o Fawrth 2024	<u>5,294</u>
Gwir werth llyfr ar y 31 o Fawrth 2024	<u>637</u>
Gwir werth llyfr ar y 31 o Fawrth 2023	<u>-</u>

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

17. STOC

	2024	2023
	£	£
Llyfrau	<u>12,964</u>	<u>26,804</u>

18. DYLEDWYR

	2024	2023
	£	£
Dyledwyr gweithredol	4,558	1,895
Dyledwyr eraill	-	-
Rhagdaliadau	<u>3,102</u>	<u>1,908</u>
	<u>7,660</u>	<u>3,803</u>

19. CREDYDWYR

	2024	2023
	£	£
Yn daladwy o fewn y flwyddyn		
Credydwy'r gweithredol	12,372	16,614
Credydwy'r eraill a nawdd cymdeithasol	1,753	638
Croniadau ac incwm gohiriedig	<u>601</u>	<u>601</u>
	<u>14,726</u>	<u>17,853</u>

20. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD

	1 Ebrill 2023	Adnoddau Mewn	Adnoddau Allan	Trosglwyddo	31 Mawrth 2024
	£	£	£	£	£
Cronfeydd wedi'u cyfyngu	13,848	-	-	(13,848)	-
Cronfeydd gwaddol - Ewyllys Pat Neil	-	185	(185)	15,000	15,000
	<u>13,848</u>	<u>185</u>	<u>(185)</u>	<u>1,152</u>	<u>15,000</u>
Cronfeydd heb eu cyfyngu					
Cronfa Gyffredinol	64,697	116,701	(172,506)	(1,152)	7,740
	<u>64,697</u>	<u>116,701</u>	<u>(172,506)</u>	<u>(1,152)</u>	<u>7,740</u>
	<u>78,545</u>	<u>116,886</u>	<u>(172,691)</u>	<u>-</u>	<u>22,740</u>

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ail ystyried cronfa Ewyllys Pat Neill yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 ac wedi dod i'r penderfyniad nid yn unig ei bod yn gronfa wedi e'i chyfyngu, ond hefyd yn gronfa waddol. Yn ôl amodau'r gymynrodd, mae rhaid i'r gronfa sefyll ar £15,000 yn barhaol, felly mae £1,152 wedi ei drosglwyddo o'r gronfa gyffredinol i gronfa Ewyllys Pat Neil (gweler polisiau cronfeydd cyfyngedig ar dudalen 11).

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

21. DADANSODDIAD O ASEDau NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau cyfredol net	Cyfanswm
	£	£	£
Cronfa gwaddol	-	15,000	15,000
Cronfeydd wedi'u cyfyngu	-	-	-
Cronfeydd heb eu cyfyngu	637	7,103	7,740
Cyfanswm	637	22,103	22,740

22. TRAFODION GYDA YMDDIRIEDOLWYR NEU BERSONAU CYSYLLTIEDIG NEU DEBYG

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol i gyfarfod, rheoli a chynnal gweithgaredd y Gymdeithas, heb unrhyw dâl neu gydnabyddiaeth yn uniongyrchol nag yn anuniongyrchol o gronfa'r elusen am wneud hynny.

Yr unig eithriad yw cydnabyddiaeth ar ffurf ffi yn ymwneud â gwaith llenyddol creadigol y Gymdeithas. Lle rhoir cydnabyddiaeth i Ymddiriedolwyr am hynny, mae'n bolisi datgan yr hyn â gânt yn agored, a cheir dadansoddiad isod, felly, o'r taliadau i Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn adrodd. Lle telir i Ymddiriedolwyr am waith creadigol, gwneir hynny ar yr un telerau yn union â chyfranwyr eraill nad ydynt yn Ymddiriedolwyr, yn ddieithriad.

1. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy gytundeb safonol y Gymdeithas ag awduron cyfrolau:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Rhys Dafis	Gweld llun o glywed llinell	Awdur	500

2. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy gytundeb safonol y Gymdeithas â chomisiynwyr a golygyddion cyfrolau:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Nerys Mari George	Cerddi'r Arfordir	Golygydd	700

3. Yn achos 1 a 2 uchod, yn unol â'r arfer cytundebol, derbyniodd yr awduron / comisiynwyr / golygyddion 12 o argraffiad cyntaf eu cyfrol am ddim.
4. Yn unol â'r arfer ers sefydlu'r Gymdeithas, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd gopi am ddim o bob cyfrol a gyhoeddwyd tra oeddent yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw.

Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

BARDDAS

5. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol drwy drefniant golygyddol am eu cyfraniadau creadigol i'r cylchgrawn Barddas neu i gyfrolau (yn cynnwys breindal):

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	60
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Eisteddfod	30
Gruffudd Antur	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	50
Rhys Dafis	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	50
Joanne Debra Heyde	<i>Barddas</i>	Cyfrannu cerdd	60
Joanne Debra Heyde	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100
Tudur Dylan Jones	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd a lluniau	450
Aneirin Karadog	Tymor Da	Cyfrannu cerdd	70
Aneirin Karadog	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100
Elinor Reynolds	Cerddi'r Arfordir	Cyfrannu cerdd	100

6. Talwyd yr Ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) canlynol am waith arbenigol yn trefnu digwyddiadau hyrwyddol:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur		Gwyl Gerallt	80
Gruffudd Antur		Meurynna Eisteddfod	360
Rhys Dafis		Gwyl Gerallt	410
Mari George		Gwyl Gerallt	60
Meirion Jones		Eisteddfod Englyn y Dydd	30
Tudur Dylan Jones		Gwyl Gerallt	40
Aneirin Karadog		Gwyl Gerallt	48
Aneirin Karadog		Eisteddfod	200
Gwenallt Llwyd Ifan		Gwyl Gerallt	40
Dafydd Meirion Jones		Gwyl Gerallt	40
Dafydd John Pritchard		Gwyl Gerallt	40
Llion Elis Jones		Gwyl Gerallt	40
Sgrifen Cyf		Gwyl Gerallt	140
(Cwmni personol Mererid Hopwood)			

7. Talwyd 5 ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag Ymddiriedolwyr) costau teithio a llety yn ystod y flwyddyn am gyfanswm o £782.